



Defnyddio tystiolaeth ymchwil yng ngweithdai gwelliant y RhPY

Astudiaeth Achos Un – Aseu ar gyfer Dysgu (AagD)

Cyd-destun y gweithdy:

Gofynnodd arweinwyr yr ysgol gynradd fawr hon i'r tîm adolygu chwilio am dystiolaeth mewn perthynas â chysondeb gweithredu arferion AagD drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn uchelgeisiol o ran gwreiddio arferion AagD ymhellach ac roedd yn dymuno gwybod pa agweddau o'r arferion oedd yn gwbl ddealladwy i bawb. Roeddent hefyd am wybod ble roedd arfer da yn bodoli eisoes a ble roedd bylchau fel eu bod yn gallu adeiladu ar wybodaeth wrth ddatblygu AagD ymhellach yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad, awgrymodd y tîm y dylai'r gweithdy archwilio'r canlynol:

- yr hyn sy'n gweithio'n dda eisoes o ran AagD, gan dynnu ar safbwynt athrawon a chymorthyddion
- sut gellid cyfathrebu'r uchelgais ar gyfer AagD ymhellach i'r holl randdeiliaid
- sut gellid gwella systemau cynllunio, adolygu ac adborth yr ysgol ymhellach er mwyn cefnogi AagD

Cynulleidfa'r gweithdy yw'r UDA, holl staff addysgu a'r CALU ar gyfer pob grŵp blwyddyn, (tua 38 o bobl). Cynllunnir iddo fod yn sesiwn 90 munud ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mae deilliannau bras yr adolygiad wedi eu rhannu â'r holl staff cyn y gweithdy.

Yr ymchwil a ddefnyddiwyd:

Darn o '[Evidence Review – Our Impact – Breadth of Pedagogical Skill](#)' (t9).
(Gweler hefyd [Peer Review Templates and Resources](#).)

Sicrhau bod arferion aseu'n cefnogi dysgu

Erbyn hyn mae Aseu ar gyfer Dysgu yn rhan greiddiol o ymarfer yn y dosbarth. Mae ystod o dystiolaeth fyd-eang am ddefnydd o fodolau Aseu ar gyfer Dysgu y gall ysgolion edrych arnynt. Mae Husbands, C a Pearce, J (2012), yn nodi bod AagD yn un o naw nodwedd addysgeg hynod effeithiol. Adolygwyd y llenyddiaeth ryngwladol gan yr Education Development Trust yn [Assessment for Learning](#) ac yna gosododd chwe chanllaw i'w hystyried er mwyn sicrhau bod Aseu ar gyfer Dysgu'n llwyddiannus mewn ysgolion. I grynhoi, dylai ysgolion wneud y canlynol:

1. Gweithredu ymroddiad yr ysgol gyfan a'r gymuned gyfan i ddull gweithio AagD.
2. Creu'r amodau cywir ar gyfer rhannu AagD trwy gamau megis rhoi amser a gofod rheolaidd i athrawon fyfyrion a thrafod gyda'u cydweithwyr, a sicrhau newid pwyslais yn niwylliant aseu'r ysgol.
3. Egluro'r newid pwyslais i'r holl randdeiliaid, yn cynnwys disgyblion a rhieni.
4. Sicrhau bod athrawon yn mynychu rhaglenni datblygiad proffesiynol datblygedig a chydabyddedig fel eu fod yn datblygu sgiliau addas a hyblygrwydd yn eu dull o weithio.
5. Astudio safbwyntiau ac agweddau disgyblion ac ymgorffori eu tystiolaeth i ddatblygiad a gweithrediad AagD, pe bai angen.
6. Hyrwyddo a galluogi ymchwil pellach ar effaith AagD ar ystod o ddeilliannau

addysgol disgyblion, megis hunangysniad academiaidd, cyrhaeddiad, cymhelliad ac ymddygiad ymgysylltu yn y dosbarth.¹

Gweithgaredd i ymgysylltu â'r ymchwil yn y gweithdy:

Trefniant

Byddai angen cynnal y gweithdy hwn mewn ystafell fawr gyda byrddau ar gyfer gwaith grŵp a gofod ar gyfer symud o gwmpas a defnyddio siartiau troi ar y waliau. Rhoddir papurau *post it* coch, oren a gwyrdd i'r cyfranogwyr. I ddechrau gofynnir iddynt weithio mewn grwpiau gydag aelodau o'r UDA yn eu mysg. Arddangosir y chwe chanllaw o'r ymchwil (fesul un) ar daflenni mawr siart troi mewn gwahanol leoliadau yn yr ystafell. Mae'r pennaeth yn cyflwyno'r hwyluswyr ac yn atgoffa cydweithwyr, yn gryno, o ddeilliannau'r adolygiad a diben ac arddull y gweithdy.

Cam 1: Storm syniadau 10 munud i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda iawn (gwyrdd), yr hyn sy'n gweithio'n o lew (oren) a'r hyn sydd ddim yn gweithio'n dda hyd yma (coch), mewn perthynas ag ymarfer AagD.

Cam 2: Mae'r HG yn cyflwyno'r chwe chanllaw o'r ymchwil.

Cam 3: Gofynnir i'r cyfranogwyr symud eu papurau *post it* i un o'r taflenni mawr, gan ystyried, er enghraifft, os yw eu papur *post it* yn ymwneud â'r amser sydd ar gael ar gyfer ymarfer AagD.

Cam 4: Gofynnir i'r cyfranogwyr weithio mewn timau cymysg o ran grwpiau blwyddyn (6 tîm) gyda phob un yn cymryd un o'r taflenni canllaw, a fydd erbyn hyn o bosib â phapurau *post it* coch, oren a gwyrdd arnynt.

Cam 5: Gofynnir i bob tîm nodi camau gweithredu posib i fynd i'r afael â'r materion ar y papurau *post it* coch ac oren.

Cam 6: Mae'r HG yn dangos/egluro [matrics blaenoriaethu](#). Wedyn, mae pob tîm yn cwblhau matrics blaenoriaethu er mwyn dangos pa rai o'r camau gweithredu a nodwyd a fyddai'n cael yr effaith mwyaf ac a fyddai hawsaf i'w weithredu.

Cam 7: Tynnir ffotograffau o'r holl bapurau *post it* a phob matrics blaenoriaethu fel cofnod o'r cyfarfod.

Cam 8: Mae pob tîm yn adrodd yn ôl ar y cam gweithredu allweddol yn eu trafodaeth y maent yn credu y dylid ei ddefnyddio

Cam 9: Mae'r HG yn dod â'r camau gweithredu allweddol a nodwyd gan bob grŵp ynghyd ac yn gwahodd y cyfranogwyr i gytuno ar y camau nesaf ar gyfer yr ysgol.



Defnyddio tystiolaeth ymchwil yng ngweithdai gwella'r RhPY

Astudiath Achos Dau – Y Grant Datblygu Disgyblion

Cyd-destun y gweithdy:

Gofynnodd arweinwyr yr ysgol gynradd hon o faint canolig i'r tîm adolygu chwilio am dystiolaeth o'r graddau yr oedd eu cynlluniau ar gyfer cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn cael effaith ar y disgyblion cymwys. Eu teimlad oedd er bod dull cyffredinol debyg yn weithredol roedd y gweithredu ymarferol yn anghyson ar draws yr ysgol ac roeddent yn awyddus i ddeall pam.

Yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad, a oedd yn cytuno â barn yr ysgol parthed anghysondeb darpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion cymwys, awgrymodd y tîm y dylai'r gweithdy archwilio ble roedd y strategaethau'n gweithio'n dda a'r ffactorau oedd wedi arwain at y llwyddiant hwn. Yn benodol awgrymodd y tîm adolygu y dylid archwilio'r canlynol:

- Sut oedd amser ychwanegol y staff cefnogi'n cael ei ddefnyddio ar draws yr ysgol
- Yr hyfforddiant a'r gefnogaeth ychwanegol a allai fod eu hangen ar staff
- Sut gellid gwau'r amser ar gyfer cefnogaeth ychwanegol a glustnodir ar gyfer y disgyblion hyn yn fwy cyson i'r dysgu a'r addysgu a gynigir i'r dosbarth cyfan yn hytrach na'i ddefnyddio ar gyfer tynnu allan o wersi bob amser.

Cynulleidfa'r gweithdy yw UDA yr ysgol, yr holl athrawon a'r cymorthyddion sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion sy'n gymwys ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. (tua 20 person).

Yr ymchwil a ddefnyddiwyd:

['Evidence Review – Our Impact – Collecting and Using Data'](#)

Rhan o 'Supporting the attainment of disadvantaged pupils: articulating success and good practice', DfE NFER 2015 (tudalen 71 i 73).

4.3 Gweithredu'u un strategaethau mewn ffordd wahanol

Pwysleisiodd staff mewn ysgolion mwy llwyddiannus nad oes ateb syml i helpu plant difreintiedig lwyddo. Nid oedd unrhyw bennaeth nag uwch arweinydd yn yr ysgolion mwy llwyddiannus yn gallu nodi un dull yn unig a oedd wedi arwain at wella cyrhaeddiad ymhlith plant difreintiedig yn eu barn hwy. Canfyddiad yr holiadur a'r cyfweiliadau oedd bod y rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio ystod o strategaethau, llawer ohonynt wedi eu hargymell gan y *Sutton Trust/EEF Teaching and Learning Toolkit*. **Fodd bynnag, ymddengys bod rhai gwahaniaethau yn y ffordd yr oedd ysgolion llai llwyddiannus yn defnyddio'r un strategaethau.**

Mae Tabl 3 yn dangos rhai enghreifftiau o sut roedd ysgolion mwy llwyddiannus a llai llwyddiannus yn mabwysiadu strategaethau tebyg ond a oedd yn gwahaniaethu o ran dyfnder, ansawdd a manylder y gweithredu.

Tabl 3 – Gwahaniaethau yn sut roedd ysgolion yn mabwysiadu'r un strategaethau

Strategaeth: Addysgu ychwanegol ar gyfer grŵp bach

- Ysgol sy'n llai llwyddiannus: Caiff disgyblion sy'n cael trafferth eu tynnu allan o wersi

Saesneg i weithio ar raglen llythrennedd ar-lein, dan oruchwyliaeth cymhorthydd sydd heb dderbyn hyfforddiant penodol.

- Ysgol sy'n fwy llwyddiannus: Caiff disgyblion ag anghenion tebyg eu tynnu o wersi nad ydynt yn rhai craidd ar gyfer cymorth wedi ei deilwra gan gymhorthydd sydd wedi ei hyfforddi mewn ymyriadau llythrennedd.

Strategaeth: Gwella adborth gan athrawon i ddisgyblion

- Ysgol sy'n llai llwyddiannus: Mae athrawon yn rhoi gradd ar waith disgyblion.
- Ysgol sy'n fwy llwyddiannus: Mae'r ysgol wedi datblygu cynlluniau marcio manwl sy'n nodi cryfderau, manau gwella a chmau nesaf ar gyfer pob disgybl. Clustnodir amser yn ystod y wers, neu yn ystod amser gyda'r tiwtor, i ymateb i'r adborth a'i drafod gyda'r athrawon.

Strategaeth: Dysgu metawybyddol / annibynnol


- Ysgol sy'n llai llwyddiannus: 'Metawybyddiaeth – beth yw hynny? Dwi'n dychmygu ein bod yn ei wneud o fwy na thebyg'
- Ysgol sy'n fwy llwyddiannus: Pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant Asesu ar gyfer Dysgu, yn annog disgyblion i feddwl am beth a sut maent yn ei ddysgu, gan wneud cysylltiadau rhwng eu dysgu mewn gwahanol bynciau.

Strategaeth: Ymwneud rhieni

- Ysgol sy'n llai llwyddiannus: Mae staff yn rhoi llyfrau gwaith cartref i ddisgyblion sy'n dangos aseiniadau'r diwrnod. Mae'r disgyblion yn mynd â'r llyfr gartref. Mae gofod i athrawon a rhieni ysgrifennu sylwadau am gynnydd y disgyblion.
- Ysgol sy'n fwy llwyddiannus: Mae Cymorthyddion addysgu lefel uwch (CALU) yn mynd i ganolfannau cymunedol i siarad â rhieni am bwysigrwydd dysgu a dyheadau. Maent yn dangos y cwricwlwm i'r rhieni a thrafod sut i gefnogi eu plentyn.

Nododd yr astudiaeth rai gwahaniaethau rhwng ysgolion mwy llwyddiannus a rhai llai llwyddiannus mewn perthynas â'u dewis o strategaethau. Roedd ysgolion mwy llwyddiannus yn tueddu i roi mwy o bwyslais ar strategaethau addysgu a dysgu (yn ychwanegol i'r gefnogaeth emosiynol/cymdeithasol a darparu adnoddau ychwanegol). Roeddent hefyd yn tueddu i roi mwy o bwyslais ar finio eu systemau Asesu ar gyfer Dysgu, fel eu bod yn rhwydd i'w gweinyddu, yn darparu adborth clir ar gyfer disgyblion ac yn cyfrannu i'w systemau data. Yn ychwanegol, dywedodd sawl un o'r rhai gafodd eu cyfweld yn yr ysgolion mwy llwyddiannus eu bod yn canolbwyntio ar wella gallu disgyblion i ddysgu drwy ddefnyddio strategaethau metawybyddol, weithiau cyn mynd i'r afael â phroblemau pwnc-benodol, drwy addysgu ychwanegol (mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau dadansoddiad yr arolwg a nodwyd ym Mhennod 3).

Dywedodd y rhai gafodd eu cyfweld yn yr ysgolion mwy llwyddiannus eu bod wedi addasu ymyriadau neu wedi datblygu rhai newydd yn seiliedig ar eu profiad a'u dealltwriaeth o'r hyn yr oeddent yn ceisio ei gyflawni. Roedd eu haddasiadau a'u datblygiadau'n seiliedig ar ddefnyddio clir o dystiolaeth, profiad uniongyrchol ac arsylwadau ar y flaengaredd ar waith yn ymarferol. Roedd ysgolion llai llwyddiannus yn fwy tebygol o ddefnyddio ymyriadau 'parod' ac yn llai tebygol o wyro oddi wrth y dull rhagnodedig. Roedd arweinwyr yn yr ysgolion mwy llwyddiannus yn amlinellu set o ddulliau ar dair lefel (ysgol gyfan; strategaethau ar gyfer disgyblion sy'n tangyflawni; a strategaethau wedi eu targedu'n benodol ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig), yn unol â'r canfyddiadau o ymchwil blaenorol ar arweinyddiaeth effeithiol wrth ddefnyddio'r premiwm disgyblion (Rea *et al.*, 2013). Mae hyn yn dangos nad gweithredu strategaethau a dargedir yn unig sy'n arwain at lwyddiant, mae effeithiolrwydd strategaethau o'r fath yn ddiabynnol ar eu gwreiddio mewn ethos ysgol gyfan o ddyhead a chyrrhaeddiad.



Gweithgaredd ar gyfer ymgysylltu â'r ymchwil yn y gweithdy:

Trefniant

Mae aelodau'r staff eisoes wedi derbyn ychydig o adborth am yr adolygiad ac maent yn ymwybodol o ffocws y gweithdy. Mae'r pennaeth yn cyflwyno'r HG ac yn atgoffa cydweithwyr o ddeilliannau'r adolygiad a diben ac arddull y gweithdy. Yn ddelfrydol, byddai'r darn byr o adroddiad *DfE/NFER* wedi ei gylchredeg o flaen llaw fel gwaith darllen cyn y gweithdy.

Cam 1: Mae athrawon a chymorthyddion o bob grŵp blwyddyn yn gweithio fel grŵp ar gyfer y gweithgaredd. Mae'r HG yn arwain storm syniadau 10 munud i gasglu enghreifftiau o sut y caiff y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion eu cefnogi ar hyn o bryd.

Cam 2: Mae'r HG yn ail-gyflwyno'r darn byr o adroddiad *DFE/NFER*; sy'n archwilio sut mae gwahanol ysgolion wedi mabwysiadu'r un strategaethau mewn modd gwahanol a chael deilliannau gwahanol, gan ddefnyddio gweithgaredd protocol darllen am 10 munud mewn grwpiau o 5. Yr HG i gasglu'r pwyntiau allweddol mewn sesiwn lawn.

Cam 3: Mae grwpiau blwyddyn yn awr yn ffurfio parau er mwyn cymharu strategaethau gaiff eu defnyddio'n gyfredol a nodi tebygrwydd a gwahaniaethau o ran sut gaiff y strategaethau eu defnyddio, gan lenwi taflen siart droi i'w rhannu gyda'r grŵp. (tua 30 munud)

Cam 4: Defnyddio [Gweithgaredd Dotocratiaeth](#) er mwyn nodi pa rai o'r strategaethau y dylai'r ysgol eu mireinio a'u gwella ymhellach. (5 munud)

Cam 5: Gofynnir i'r cyfranogwyr nodi'r ddau neu dri prif syniad a mynd yn ôl i grwpiau llai unwaith eto gyda chynrychiolydd o gymysgedd o grwpiau blwyddyn. Defnyddio'r gweithgaredd [Meddwl Pelydrol](#) i ymateb i'r cwestiwn 'Sut allwn ni...?' ar gyfer y syniadau a ddewiswyd, e.e sut allwn ni integreiddio cefnogaeth GDD yn well i ymarfer dosbarth?

Cam 6: Mae pob grŵp yn adrodd yn ôl ar y gweithredu allweddol maen nhw'n gredu y dylid ei ddwyn ymlaen o'u trafodaethau.



Defnyddio dystiolaeth ymchwil yng ngweithdai gwelliant y RhPY

Astudiaeth Achos Tri – Arweinwyr Canol

Cyd-destun y gweithdy:

Yn yr ysgol uwchradd hon o faint canolig, gofynnodd yr arweinwyr i'r tîm adolygu chwilio am dystiolaeth mewn perthynas â'r graddau y mae arweinwyr canol yn dal cydweithwyr yn atebol am eu heffaith a'u deilliannau. Roedd yr ysgol wedi ailstrwythuro arweinyddiaeth ganol ynghynt yn y flwyddyn ac mae nifer arwyddocaol o gydweithwyr yn newydd i'w rolau yn y flwyddyn academaidd hon.

Yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad, awgrymodd y tîm y dylai'r gweithdy archwilio'r canlynol:

- y rhannau arweinyddol o rôl arweinwyr canol lle teimlant fwyaf hyderus / o her
- strategaethau posib ar gyfer meithrin hyder a sgiliau / gwybodaeth yn y meysydd hyn

Cynulleidfa'r gweithdy yw arweinwyr canol yr ysgol a'r Dirprwy Bennaeth sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chefnogi arweinyddiaeth yn yr ysgol. Gwnaeth y pennaeth ddewis bwriadol i beidio â mynychu'r sesiwn gan awgrymu efallai y byddai'r arweinwyr canol yn teimlo'n fwy hyderus a gonest am eu rolau a'r heriau cysylltiedig yn ei habsenoldeb.

Yr ymchwil a ddefnyddiwyd:

Darn o 'The key role of middle leaders - an Ofsted perspective' (Mike Cladingbowl 2013)

Am beth mae Ofsted yn chwilio mewn arweinydd canol rhagorol?

Mae rheolaeth ganol o ansawdd uchel yn ymwneud â mwy na rheoli pwnc neu agwedd o fywyd ysgol. Mae arweinwyr canol yn frwdfrydig dros eu pwnc, yn rheolwyr a gweinyddwyr da – ond er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol maent yn croesawu nodweddion mwy heriol arweinyddiaeth, sy'n ymwneud â gweledigaeth, strategaeth a gyrru tuag at welliant.

Mae nifer o negeseuon cyson i'w gweld mewn adroddiadau Ofsted diweddar yn cynnwys pwysigrwydd:

- uwch arweinwyr yn dangos parch mawr tuag at y pwnc a'i osod wrth galon y gyrru tuag at welliant
- arweinwyr pwnc yn modelu arfer da ac yn herio cydweithwyr i archwilio ac arloesi
- gweledigaeth uchelgeisiol, wedi ei mynegi'n dda, yn seiliedig ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl a dealltwriaeth ardderchog o ddatblygiadau a meddwl cyfredol yn y pwnc
- monitro, hunan arfarnu a chynllunio gweithredu o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio'n eglur ar wella safonau ac ansawdd dysgu'r disgyblion
- defnydd cyson o dystiolaeth am berfformiad disgyblion fel sail ar gyfer cynllunio a hunan asesu o safon uchel
- darparu hyfforddiant rheolaidd sy'n canolbwyntio ar gyfer pawb sy'n ymwneud ag addysgu'r pwnc er mwyn meithrin a rhannu'r arfer gorau
- defnydd effeithiol o adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu rhagorol

Gweithgaredd ar gyfer ymgysylltu â'r ymchwil yn y gweithdy:

Trefniant

Gofynnwyd i'r arweinwyr canol sy'n mynychu'r gweithdy ddarllen yr erthygl 3 tudalen 'The key role of middle leaders – an Ofsted perspective', (Mike Cladingbowl, 2013) cyn dod i'r sesiwn.

Cam 1: Protocol darllen. Gan weithio mewn grwpiau o bedwar, gyda phob person yn cael 3 munud i gyfrannu heb neb yn tarfu er mwyn rhannu'r rhan o'r erthygl oedd yn atseinio gryfaf â nhw yn eu rôl. (15 munud yn cynnwys trefnu a gosod y dasg)

Cam 2: Rhoddir set o gardiau i'r grwpiau gyda phob cerdyn yn disgrifio elfen o rôl arweinydd canol, e.e. modelu addysgu o ansawdd uchel mewn pwnc. Gwahoddir hwy i osod y cardiau hyn ar fatrics fel y diagram isod. (25 munud)

| | |
|-----------------------------|---------------------------|
| Hyderus ond â sgiliau isel | Hyderus a medrus |
| Low confidence and low sgil | Low confidence and medrus |

Cam 3: Sesiwn lawn i gasglu ynghyd unrhyw themâu datblygu cyffredin sydd wedi ymddangos. (10 munud)

Cam 4: Yn ddibynnol ar sawl thema ddatblygu sydd wedi ymddangos, efallai y bydd angen i'r HG ofyn i'r grwpiau flaenoriaethu. Gellid gwneud hyn trwy ddefnyddio **diemwnt naw**.

Cam 5: Gweithio ar flaenoriaethau gan ddefnyddio'r offeryn **dadansoddiad asgwrn pysgodyn** i archwilio materion.

Cam 6: Gan ddefnyddio'r canfyddiadau o'r dadansoddiad asgwrn pysgodyn, dechrau nodi gweithredu posibl i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Cam 7: Cytuno ar flaenoriaethau gweithredu.



Defnyddio tystiolaeth ymchwil yng ngweithdai gwelliant y RhPY

Astudiaeth Achos Pedwar – Adborth a Marcio

Cyd-destun y gweithdy:

Roedd arweinwyr yr ysgol hon, sydd â dau ddsbarth ym mhob blwyddyn, wedi nodi dros amser, bod y doreth o ddulliau ar gyfer rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig i ddysgwyr wedi mynd yn feichus ar athrawon a staff cefnogi. Wrth i'r ystod o ddulliau gynyddu, teimlai arweinwyr yr ysgol eu bod wedi colli golwg ar ba rai oedd fwyaf effeithiol ac felly gofynnwyd i'r tîm adolygu eu cynorthwyo i ddeall pa ddulliau oedd yn cael yr effaith fwyaf. Roeddent eisiau deall hyn o safbwynt athrawon, cymorthyddion a'r disgyblion.

Yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad, awgrymodd y tîm y dylai'r gweithdy archwilio'r canlynol:

- yr ystod o ddulliau ar gyfer rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig, yn benodol felly ar gyfer gwaith ysgrifenedig disgyblion, gan mai dyma lle gwelodd y tîm adolygu'r ystod a'r gwahaniaethau mwyaf o ran dulliau
- sut mae dulliau'r disgyblion o hunan asesu ac asesu cyfoedion yn ategu'r adborth gan oedolion

Cynulleidfa'r gweithdy yw'r holl staff addysgu a'r staff cefnogi dysgu, cyfanswm o tua 30 person. Fe'i cynllunnir fel sesiwn 120 munud sy'n rhan o ddiwrnod HMS ysgol.

Yr ymchwil a ddefnyddiwyd:

Darn o ['Evidence Review – Looking Inward – Effective Teaching'](#) (t.28)

Yn ôl blwch offer yr EEF, mae rhoi adborth i ddysgwyr ymysg y dulliau mwyaf effeithiol a chost-effeithiol y gall athrawon ei ddefnyddio i gefnogi dysgu disgyblion². Nid yw hyn yr un peth â marcio gwaith disgyblion. Dywed EEF bod eu tystiolaeth yn awgrymu y dylai adborth da:

- fod yn benodol, cywir a chllir
- annog a chefnogi ymdrech bellach
- fod yn gynnil er mwyn iddo fod yn ystyrlon
- ddarparu arweiniad penodol ar sut i wella, nid dim ond dweud wrth ddisgyblion eu bod yn anghywir
- gael ei gefnogi gyda datblygiad proffesiynol effeithiol ar gyfer athrawon
- gael ei ddefnyddio ar gyfer y tasgau pwysicaf yn unig

Fe fydd y gweithdy yn cyfeirio at y cyhoeddiad gan EEF y cyfeiriwyd ato uchod yn ogystal ag *A marked improvement – A review of the evidence on written marking (Ebrill 2016)*

² EEF, 2016


Gweithgaredd ar gyfer ymgysylltu â'r ymchwil yn y gweithdy:

Trefniant

Byddai angen cynnal y gweithdy hwn mewn ystafell fawr gyda byrddau ar gyfer gwaith grŵp a gofod ar gyfer symud o gwmpas a defnyddio siartiau troi ar y waliau.

Cam 1: Cyflwyniad i'r gweithdy gan bennaeth yr ysgol sy'n egluro mai ffocws y cyfarfod yw'r holl ddulliau a ddefnyddir i roi adborth ar waith ysgrifenedig disgyblion. Gobaith y gweithdy yw galluogi'r ysgol i symleiddio'r prosesau, gan sicrhau eu bod yn mabwysiadu'r dulliau mwyaf effeithiol a hylaw.

Cam 2: Mae'r HG yn cyflwyno diagram o adroddiad EEF sy'n cynrychioli gwahanol fathau o adborth llafar ac ysgrifenedig a'r berthynas rhwng marcio ac adborth.



Cam 3: Gan weithio mewn grwpiau bach (gyda staff o bob cyfnod ym mhob un), gwahoddir cydweithwyr i boblogi diagram cyffelyb, ar siart droi, gydag arferion y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd mewn perthynas â marcio a rhoi adborth ar waith ysgrifenedig disgyblion.

Cam 4: Arddangosir y siartiau troi ar y wal a gwahoddir y timau staff i gynnal taith er mwyn edrych ar waith y grwpiau eraill. Wedyn caiff y siartiau troi eu torri'n bedair rhan.

Cam 5: Wedi hyn, holltir y grŵp cyfan yn bedwar grŵp newydd. Mae pob grŵp yn cymryd cyfrifoldeb am yn o bedrannau'r siart troi, gan adolygu'r holl gyfraniadau. Cânt y dasg o grynhoi'r arferion a ddisgrifir ar gardiau post.

Cam 6: Mae'r grwpiau nawr yn gosod y cardiau post ar y [matrics blaenoriaethu](#) sy'n rhoi ystyriaeth i effaith a pha mor hylaw yw'r dull.

Cam 7: Mae pob un o'r pedwar grŵp yn adrodd yn ôl i weddill y grŵp, gan grynhoi pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol a lleiaf beichus yn eu barn hwy

Cam 8: Mae'r HG yn gwahodd y grwpiau i fyfrio ar bwy fydd yn cywain holl ddeilliannau'r gweithgaredd i greu canllaw byr a syml ar roi adborth a marcio gwaith ysgrifenedig disgyblion.



Defnyddio tystiolaeth ymchwil yng ngweithdai gwelliant y RhPY

Astudiaeth Achos Pump - Ysgrifennu

| |
|---|
| <p>Thema RhPY: Edrych tuag i mewn</p> |
| <p>Dimensiwn: Addysgu Effeithiol</p> |
| <p>Cwestiwn(ynau) Adolygiad:</p> <ul style="list-style-type: none">- I ba raddau y caiff strategaethau ysgrifennu eu haddysgu, eu modelu a'u cefnogi?- I ba raddau y mae disgyblion yn datblygu sgiliau trawsgrifio a chyfansoddi brawddegau trwy ymarfer helaeth? |
| <p>Cyd-destun y gweithdy</p> <p>Yn y ffederasiwn cynradd hwn o ysgolion, a ffurfiwyd yn ddiweddar trwy uno ysgol fabanod ac ysgol iau, adnabu'r arweinwyr ysgrifennu fel maes ffocws ar gyfer eu hadolygiad. Bu dod â staff y CS a CA2 at ei gilydd yn fodd o weld anghysondebau wrth addysgu ac asesu ysgrifennu, ac mae'r tîm arwain newydd yn hynod o awyddus i ddefnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel sail i'w hadolygiad a'r cynllunio gwelliant.</p> <p>Fe wnaeth y tîm adolygu'r canlynol: edrych ar enghreifftiau o ysgrifennu disgyblion, cyfarfod â'r arweinydd pwnc Saesneg (newydd ei phenodi sydd hefyd yn arwain y CS), treulio amser mewn gwersi llythrennedd ar draws yr ysgol, edrych ar ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion ac adolygu cynllunio.</p> <p>Yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad, awgrymodd y tîm y dylai'r gweithdy archwilio'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• sut i sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau uchel ar draws yr ysgol ar gyfer ysgrifennu,• sut i ddatblygu dealltwriaeth fwy eglur o'r elfennau allweddol ar gyfer addysgu ysgrifennu ar gyfer yr holl staff <p>Cynulleidfa'r gweithdy yw'r staff cyfan, yn cynnwys cymorthyddion.</p> |
| <p>Ymchwil a ddefnyddiwyd</p> <p>Adoddiadau canllaw EEF– KS1 Literacy, September 2016 a KS2 Literacy, April 2017.</p> <p>Gweler y poster crynodeb atodedig.</p> |

Gweithgaredd ar gyfer ymgysylltu â'r ymchwil yn y gweithdy:

Trefniant

Byddai angen cynnal y gweithdy hwn mewn ystafell fawr gyda byrddau ar gyfer gwaith grŵp a gofod ar gyfer symud o gwmpas a defnyddio siartiau troi ar y waliau. Roedd y pennaeth hefyd wedi gwneud cais i'r gweithdy fod yn rhan o ddiwrnod HMS yr ysgol, felly roedd 2.5 awr ar gael. Gan fod pennaeth yr ysgol yn awyddus iawn i'r staff ymgysylltu ag ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cytunwyd i osod tasg darllen o flaen llaw. Roedd athrawon y CS wedi derbyn yr adran ar ysgrifennu o adroddiad canllaw CA2, ac roedd staff CA2 wedi derbyn yr adrannau cyfatebol o adroddiad y CS. Roedd yr HG wedi cynllunio hyn gyda'r pennaeth. Rhoddwyd y darnau i'r cydweithwyr wythnos cyn y gweithdy.

Cam 1: Y pennaeth i osod y cyd-destun ar gyfer y gweithdy a diolch i'r staff am ymgysylltu â'r broses adolygu. Eglurir rôl yr HG.

Cam 2: Gweithgaredd [Graddio COG](#). Gwahoddwyd cydweithwyr i gyfrannu at storm syniadau gan fyfyrion mewn grwpiau traws gyfnod ar y canlynol mewn perthynas ag addysgu ysgrifennu

Papur *post it* gwyrdd: Beth ydym yn ei wneud yn dda ar hyn o bryd?

Papur *post it* oren: Beth ydym yn ei wneud sy'n dderbyniol, ond y gellid ei wella drwy fireinio?

Papur *post it* coch: Beth allwn ei wella?

Cam 3: Gan weithio mewn grwpiau bach gyda chymysgedd o'r CS a CA2 ym mhob un, mae'r cyfranogwyr yn cyfeirio'n ôl at y darnau o EEF KS1 and KS2 literacy guidance on writing, gan ystyried y nodiadau a gynhyrchwyd ar y papurau *post-it*.

Cam 4: Mae'r grŵp yn nodi thema o'u trafodaeth ar gyfer ei gwella.

Cam 5: Gwahoddir y grwpiau i archwilio datrysiadau posib i'r heriau hyn gan ddefnyddio'r dull [Meddwl Pelydrol](#).

Cam 6: Cofnodir y camau gweithredu allweddol gan bob grŵp ac, os dymunir, eu blaenoriaethu drwy ddefnyddio dull [Dotocratiaeth](#).

Cam 7: Mae'r HG yn llunio crynodeb o'r gweithdy ac yn gwahodd y tîm ysgol i nodi beth sy'n mynd i ddiwydd nesaf er mwyn symud rhai o'r awgrymiadau yn eu blaenau. Cofnodir hyn gan yr arweinydd pwnc Saesneg.



Defnyddio tystiolaeth ymchwil yng ngweithdai gwelliant y RhPY

Astudiaeth Achos Chwech - Mathemateg

Cyd-destun y gweithdy:

Yn yr ysgol hon, gyda thri dosbarth ym mhob blwyddyn, nododd yr arweinwyr bod cyrhaeddiad a chynnydd mewn mathemateg yn arwyddocaol is na'r hyn gafwyd mewn llythrennedd ar gyfer yr un grwpiau o ddisgyblion. Roedd eu hunan arfarniad, a oedd yn seiliedig ar adborth staff yn cynnwys athrawon a chymorthyddion, arsylwadau dosbarth ac archwiliad o gynllunio wedi nodi nifer o drywyddau ymholi ar gyfer yr adolygiad. Ymddengys bod gwybodaeth bynciol, hyder wrth addysgu cysyniadau mathemategol, deall camsyniadau disgyblion ac adnabod ymyriadau priodol yn bryderon cyffredin. Fe gododd hyn gwestiynau am foddelu ac addysgu strategaethau datrys problemau.

Canfu'r tîm adolygu bod anghysondebau wrth addysgu cysyniadau allweddol mewn mathemateg a allai fod yn cyfrannu at ddryswch disgyblion. Yn ystod yr adolygiad, fe rannodd rhai athrawon eu bod yn brin o hyder wrth addysgu mathemateg. Lle nodwyd disgyblion ar gyfer ymyriad pellach mewn mathemateg, roedd diffyg strwythur ac nid oedd trosolwg o gamsyniadau allweddol er mwyn llywio'r ymyriad. Roedd ymyriadau'n tueddu i fod yn hir a heb ffocws penodol.

Yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad, awgrymodd y tîm y dylai'r gweithdy archwilio'r tri maes canlynol:

- sut y gellid mynd i'r afael â'r bylchau yng ngwybodaeth bynciol yr athrawon
- sut y gellid datblygu adnoddau a thasgau ar gyfer datrys problemau a'u deall a'u defnyddio'n ehangach
- sut y gellid mynd i'r afael â chamsyniadau trwy ymyriadau tymor byr mwy penodol

Cynulleidfa'r gweithdy yw pob athro ym mlynnyddoedd 3 i 6, cymorthyddion sy'n cefnogi mathemateg, y cydlynnydd ADY ac UDA yr ysgol.

Tystiolaeth Ymchwil:

Adroddiad Canllaw EEF– [Maths in KS2 and 3, November 2017](#)

Gweler y poster crynodeb atodedig.

Gweithgaredd ar gyfer ymgysylltu â'r ymchwil yn y gweithdy:

Trefniant

Trefnwyd i'r gweithdy hwn ddigwydd yn nosbarth yr arweinydd pwnc mathemateg sy'n athro blwyddyn 5.

Cam 1: Mae'r pennaeth a'r arweinydd pwnc mathemateg yn cyflwyno'r gweithdy gan gyfeirio'n ôl at ddiwrnod yr adolygiad. Diolchir i'r staff am eu gonestrwydd a'u parodrwydd i gyfrannu i'r adolygiad. Eglurir rôl yr HG yng nghyd-destun y gweithdy.

Cam 2: Mae'r HG yn rhannu tri maes allweddol y bydd y gweithdy'n dechrau mynd i'r afael â nhw gan ail-bwysleisio mai dull sy'n canolbwytio ar ddatrysiad yw hwn.

Tri maes allweddol:

- Hyder wrth addysgu mathemateg
- Addysgu datrys problemau
- Mwy o ymyriadau tymor byr effeithiol i fynd i'r afael â chamsyniadau.

Cam 3: Gan archwilio'r meysydd allweddol mewn mwy o ddyfnder – Caiff y grŵp ei hollti'n 3 grŵp llai, gyda chynrychiolaeth o bob grŵp blwyddyn a'r UDA ym mhob grŵp. Mae'r grwpiau'n gweithio ar ddalen fawr o bapur i gwblhau [dadansoddiad asgwrn pysgodyn](#) o'u thema.

Cam 4: Ar ôl i'r grwpiau cyntaf gael amser i ddatblygu'r dadansoddiad asgwrn pysgodyn, mae'r grwpiau'n cylchdroi er mwyn gallu ychwanegu at waith ei gilydd.

Cam 5: Mae'r HG yn cyflwyno Adroddiad Canllaw Mathemateg EEF.

Rhoddir darn byr o'r adroddiad sy'n berthnasol i'w maes her i dri grŵp e.e. yr adrannau sy'n cychwyn ar dudalennau 14, 24 a 28.

Eglurir y protocol darllen un munud i'r grŵp. Rhoddir 5 i 10 munud i'r grwpiau ddarllen ac anodi eu darn. Yna dilynir y protocol darllen lle rhoddir un munud i gydweithwyr rannu myfyrdodau. Mae pob person yn cyfrannu ddwywaith. I orffen, mae'r grŵp yn crynhoi'r dysgu allweddol y dylent dalu sylw iddo. Cofnodir y rhain ar siartiau troi a'u harddangos.

Cam 6: Mae'r tri grŵp yn defnyddio dull canolbwyntio ar ddatrysiad gan ddefnyddio [meddwl pelydrol](#) a'r cwestiynau cychwynnol isod:

- Sut allwn ni sicrhau ein bod ni i gyd yn teimlo'r un mor hyderus wrth addysgu mathemateg?
- Sut allwn ni fod yn well am addysgu datrys problemau?
- Sut allwn ni ddylunio ymyriadau tymor byr sy'n fwy effeithiol?

Wrth wneud hyn, maent yn cyfeirio at y ddau weithgaredd blaenorol e.e. y materion a ddaeth i'r amlwg yn y dadansoddi asgwrn pysgodyn a'r syniadau a gafwyd o ganllaw EEF.

Cam 7: Blaenoriaethu a phenderfynu ar gamau gweithredu - gweithgaredd [Dotocratiaeth](#).

Rhoddir 10 smotyn gludiog i bob person. Maen nhw'n edrych ar y taflenni cofnodi mawr ar gyfer 'meddwl pelydrol' a phleidleisio dros y camau gweithredu allweddol y maent yn teimlo fydd yn cael yr effaith fwyaf.

Cam 8: Mae'r HG yn dod â'r sesiwn i ben gan sicrhau cytundeb gan y grwpiau parthed pwy fydd yn cloriannu allbwn y gweithdy a datblygu cynllun gweithredu. Maen nhw hefyd yn gofyn am adborth ar eu gweithdy a nodi unrhyw beth a amlygwyd yn y gweithdy allai fod yn berthnasol i'r bartneriaeth ehangach.